# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS MEHEFIN 2020:**
**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom a pawb yn ei gartref yn defnyddio ei gyfrifiadur neu ei ffôn** am 7y.h. nos Fercher 17 Mehefin, 2020**.** Estynwyd croeso i'r aelodau a diolchwyd i TT am drefnu'r ochr dechnegol.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Bethan Holding, Iwan Harding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans, Olwen Gwilym,

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau 13 Mai, 2020 fel rhai cywir a threfnwyd i'r Cadeirydd ei harwyddo. Cynnig ac eilio: HLJ / KJ.

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Defaid Crwydrol:***
Adroddwyd gan y Clerc iddo drefnu i Colin Roberts fugeilio defaid yn Llanberis ar ôl i Brian Owen gyhoeddi ei fod am roi'r gorau i'r gwaith. Bydd yn gwneud hynny ar yr un telerau a BO, ac ar ôl cael cais oddi wrth y Clerc neu KMJ. Ychwanegodd ei fod hefyd wedi siarad ag un o aelodau Tîm Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru. Addawodd y swyddog y byddai un o aelodau'r tîm yn cysylltu a'r amaethwyr lleol i ofyn iddynt sicrhau eu terfynnau.
***2. Cynllun Cyfaill:***
Mae'r Cynllun Cyfaill a sefydlwyd gan y Cyngor yn dal i weithio yn effeithiol, er bod nifer y galwadau wedi gostwng. Nodwyd gyda diolch bod y Cynghorydd KMJ wedi trefnu cinio i nifer fawr o drigolion hŷn y ddau bentref y Sul blaenorol, ac mae nifer eto i'w trefnu yn y dyfodol. Roedd y gymwynas wedi ei gwerthfawrogi. Cafodd gymorth nifer o aelodau'r Cyngor ac eraill i ddosbarthu.
***3. Seddi gwag:***
Adroddwyd bod hysbysebion wedi eu rhoi ar yr Hysbysfyrddau yn holi a oedd rhywrai'n credu bod angen etholiad ar gyfer llenwi y ddwy sedd wag ar y Cyngor. Dyddiad cau 19 Mehefin. Go brin y gellid cynnig etholiad o gofio'r sefyllfa bresennol efo Covid-19, felly y tebygrwydd ydi y bydd angen hysbysebu'r ddwy sedd wag a gofyn am enwau, cyn cyfethol trwy bleidlais yn y Cyngor nesa gobeithio er mwyn cael yr aelodau newydd yn eu lle erbyn mis Medi.

**5 MATERION ERAILL**
***1. Agor y Mynyddoedd:***
Adroddwyd bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) wedi penderfynu caniatau mynediad i ochr ogleddol Moel Eilio, h.y. o Fwlch y Groes rhwng Llanberis a'r Waunfawr. Cyn hynny roedd Rheolwr y Wardeniaid wedi ymgynghori gyda'r Clerc ac yntau yn ei dro, cyn ateb, wedi holi am ymateb aelodau'r Cyngor. Y farn yn gyffredinol oedd caniatau llacio er mwyn i bobl leol gael troi allan ond gyda rhybudd na ddylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r newid. Roedd sawl aelod yn bryderus y gallai hyn ddenu pobl o bell, a chyfeiriwyd at sibrydion fod son am drefnu teithiau i weld y machlud o gwmpas y dydd hwyaf. Holwyd am bresenoldeb Wardeniaid yn yr ardal a chafwyd sicrwydd y byddai rhai ar ddyletswydd, ond rhybuddiwyd unwaith y byddai pobl ar y mynydd nad oedd wybod i le y byddent yn mynd wedyn. Roedd y Clerc hefyd wedi nodi y byddai unrhyw agor yn ychwanegu at yr erydu drwg sydd eisioes yn bodoli ar yr ochr ogleddol o'r Foel.
***2. Llinellau Melyn:***
Yn ôl BH mae llenwi tyllau a chlytio wyneb nifer o strydoedd yn Llanberis wedi dileu llinellau melyn atal parcio, (soniwyd am Stryd Tomos, Goodman a Warden), ac mewn mannau eraill mae'r llinellau bron wedi diflannu yn llwyr. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu a Chyngor Gwynedd a chael adfer y llinellau.
***3. Y Wefan:***
Adroddwyd bod ychwanegu deunydd cyson i Wefan y Cyngor www.cyngorllanberis.cymru ac hefyd bod nifer o ddogfennau newydd yn cael eu roi arni.
***4. Marathon Eryri:***
Dywedodd y Clerc iddo gael gwybod fod Marathon Eryri fel Ras yr Wyddfa wedi ei hychwanegu at yr holl ddigwyddiadau awyr agored sydd wedi eu gohirio am flwyddyn.

***5. Pysgota'r Llyn:***
Yn dilyn y son bod nifer o drigolion lleol wedi bod yn pysgota cafwyd eglurhad gan y Clerc pwy oedd a'r hawl i 'sgota Llyn Padarn. Heb docyn gan Gymdeithas Pysgota Seiont, Gwyrfai a Llyfni nid oes hawl pysgota o gwbl ar y llyn, na chwaith i fyny'r afon tuag at Llyn Peris; mae gwneud heb docyn yn anghyfreithlon. Mae 'hawl pysgota' ar y glannau i gyd yn meddiant y Gymdeithas, (ar wahân i'r darn o gwt cwch Glan Padarn (Canolfan Kent) at geg afon Goch Bach) ynghyd a'r hawliau i bysgota wyneb hanner isaf y llyn. Mae hawliau (pysgota'r wyneb, h.y. pysgota oddi ar gwch) hanner ucha'r llyn ym meddiant Cyngor Gwynedd, perchennog y llyn, ond wedi bod ar brydles tan yn ddiweddar i'r Gymdeithas. Mae trafodaethau wedi bod ar y gweill i adnewyddu'r brydles, ond heb eto eu cwblhau. Dylai unrhyw un sy'n ystyried pysgota ar y llyn neu'r glannau gysylltu a Chymdeithas SGLl.
Dywedodd KMJ ei fod wedi trafod y mater gyda Cadeirydd y Gymdeithas a'i fod yn gobeithio gweld y Gymdeithas yn cynnig tocyn tymor i bysgota glannau'r llyn yn y dyffodol.
***6 Lampau Stryd:***
Nodwyd gan BH ac eraill bod nifer o goed yn cuddio golau sawl lamp stryd, ar Lôn yr Eglwys, gwaelod Stryd yr Wyddfa a top Stryd Warden. Addawodd y Clerc anfon gair at yr adran berthnasol yn(g) CG.
***7. Chwyn:***
Cafwyd trafodaeth ynglyn â'r ffaith, oherwydd y feirws, na fu chwynu na chwistrellu eleni gan CG ar strydoedd Llanberis. Wedi trafodaeth hir penderfynwyd dan arweiniad TT i geisio cael gwirfoddolwyr i gerdded y Stryd Fawr a chodi'r chwyn. Ym marn rhai mae hyn mor bwysig a chlirio sbwriel. Penderfynwyd mai gweithio o un pen i'r llall fyddai orau gan gadw mewn cof y rheol 2 fetr, a sicrhau fod y cyfan yn cael ei wneud yn ofalus a diogel heb beryglu iechyd. TT i drefnu ac i ofyn i'r Grwp Pentre taclus am fagiau i'r chwyn.

**6 GOHEBIAETH:**
***1. Eisteddfod Genedlaethol:***
Llythyr diolch oddi wrth yr EG am y siec a anfonwyd yn lle'r un a gollwyd gyda gwerthfawogiad am gefnogaeth gyson y Cyngor. Eglurwyd mae Covid-19 oedd yn gyfrifol am yr oedi cyn anfon yr e-bost.
***2. Holiadur Trafnidiaeth:***
Cytunwyd i'r Clerc lenwi'r holiadur oddi wrth gwmni yn gweithredu ar ran APCE gan bwysleisio pryderon a leisiwyd fwy nag unwaith gan aelodau'r Cyngor hwn.

**7 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Fai, 2020**
**Cyfrif Cyfredol**: £14,282.91 **Cyfrif Cadw**: £5,365.46

**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol: CYFANSWM £1,637.40**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/04/2020 a 28/05/2020:**
**CYFANSWM £15,540.88**

Ar ddiwedd bron dau fis roedd gwariant y Cyngor yn y flwyddyn ariannol bresennol yn £4,729.27 a'r derbyniadau yn £16,030. Rhoddwyd holl ffigyrau y mis hwn i gyd ar y Rhaglen er mwyn hwylustod i'r aelodau ar Zoom.
Cynnig ac eilio: TT / HLJ

**8 MANTOLEN BLWYDDYN Ebrill 2019 - Mawrth 2020:**
Roedd y Clerc wedi cwblhau y gwaith ar gyfer yr Archwiliad Mewnol ac wedi derbyn yn ôl 'Adroddiad Archwiliad Mewnol' o Uned Archwilio Mewnol CG ychydig oriau cyn y cyfarfod. Darllenwyd yr adroddiad gan y Clerc ac addawodd ei roi ar e-bost y diwrnod canlynol i'r aelodau.
Mae'r adroddiad yn nodi y ***'gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Cymuned Llanberis ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd'***.
Ond nodwyd fod dau ddiffyg:
• Methiant i gyflwyno cofrestr asedau cyflawn i gynnwys y dyddiad meddiant a'r gwerthoedd cyfredol a gwreiddiol yr ased. Dywedodd y Clerc fod y Rhestr oedd ganddo yn gyflawn ond nad oedd ganddo ddyddiadau a gwerth. Addawodd fynd ati yn fuan i geisio paratoi Cofrestr a fydd yn cwrdd y gofynion.
• Methiant i gynnal gwefan y Cyngor yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.
Mae hyn yn cyfeirio at y ffaith nad oedd digon o wybodaeth ar y Wefan. Dywedodd y Clerc ei fod yn ychwanegu deunydd yn wythnosol arni.
Cytunodd y Cyngor mai materion bychan, ond angenrheidiol oedd y rhain, a byddai'n rhaid gweithredu ar yr argymhellion yn y dyfodol agos yn unol ag addewid y Clerc.

Gan nad oedd newid yn y Ffurflen Flynyddol doedd dim rhaid i'rr Cadeirydd a'r Clerc ei harwyddo ar gyfer yr Archwiliad Allanaol. Felly gellir ei hanfon i gwmni BDO Southampton, sy'n gweithredu ar ran Archwilio Cymru cyn y 10fed o Orffennaf.
Diolchwyd i'r Clerc am ei waith ar ran y Cyngor.
Cynnig ac eilio: BH / KMJ

**9 CYNLLUNIO:**
• **C20/0409/15/AC** - *Cais ar gyfer diwygio Amod 1 o Ganiatad Cynllunio Rhif C15.0460/15/LL er mwyn estynnu cyfnod cychwyn y datblygiad o bum mlynedd ychwanegol* - **Bryn Padarn, 19 Rallt Goch, Llanberis. LL55 4LB**. Dim sylw.

**10. CYFARFOD NESAF:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf ar Zoom, os na fydd y rheolau wedi newid. Nos Fercher 15 Gorffennaf, 2020.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir**
Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos Dyddiad 15 Gorffennaf, 2020.